

**CAMAU GWEITHREDU O GYFARFOD GRŴP CYNGHORI AR BYSGODFEYDD MÔR
CYMRU A GYNHALIWDYD AR 7 MAWRTH**

Eitem 3(a)

Cam Gweithredu	UBC
Cam Gweithredu 1: Yr Ysgrifenyddiaeth i ddiwygio nodiadau'r cyfarfod blaenorol a newid 'Pysgod Môr' i 'Bwyllgor Cynghori ar Bysgod Môr Cymru'.	Ysgrifenyddiaeth
Statws: Wedi'i gwblhau	
Cam Gweithredu 2: Y tîm Bioamrywiaeth i roi crynodeb o nifer y llamidyddion sy'n tirio ar ôl cael eu dal fel sgil-ddalfa yn nyfroedd Cymru a rhoi'r wybodaeth ddiweddaraf hefyd am drafodaeth gynharach ynghylch arolwg ar nifer y llamidyddion yn nyfroedd y DU.	Richard LJ
Statws: Anfonwyd gwybodaeth at holl aelodau Grŵp Cynghori ar Bysgodfeydd Môr Cymru.	
Cam Gweithredu 3: Barrie John i roi crynodeb o ganlyniadau'r erlyniadau sy'n digwydd ar 8 Mawrth.	Barrie John
Statws: Anfonwyd gwybodaeth at holl aelodau Grŵp Cynghori ar Bysgodfeydd Môr Cymru.	
Cam Gweithredu 4: Yr Ysgrifenyddiaeth i roi'r manylion cyswllt y dylai'r aelodau eu defnyddio i roi gwybod eu bod wedi gweld llamhidydd sydd wedi marw neu wedi'i anafu.	CC/ Ysgrifenyddiaeth
Statws: Anfonwyd gwybodaeth at holl aelodau Grŵp Cynghori ar Bysgodfeydd Môr Cymru.	
Cam Gweithredu 5: Leanne Llewellyn i roi'r cynigion amlinellol i'r aelodau ar gyfer tymor caeedig mewn perthynas â chregyn moch.	LL
Statws: Bydd LL yn rhoi'r wybodaeth ddiweddaraf ar lafar mewn cyfarfod.	
Cam Gweithredu 6: Er mwyn tawelu meddwl yr aelodau ynghylch yr oedi wrth gyflawni ffrydiau gwaith â blaenoriaeth, JB i lunio datganiad o fwriad sy'n nodi sut y byddai cynnydd yn cael ei wneud yn ystod adeg mor heriol.	JB
Statws: Eir i'r afael â'r cam gweithredu hwn pan fyddwn yn gwybod pa adnoddau sydd ar gael i gyflawni'r ffrydiau gwaith â blaenoriaeth.	
Cam Gweithredu 7: Yr aelodau i roi gwybod i JB faint o bobl sy'n bwriadu gwneud cais am gymorth o dan y Cynllun Cynghorwyr Datblygu Busnes Pysgodfeydd, pryd mae ceisiadau'n debygol o ddod i law a gwerth posibl y prosiect.	Aelodau
Statws: Mae Cymdeithas Pysgotwyr Cymru wedi awgrymu faint o geisiadau am gymorth o dan y Cynllun Cynghorwyr Datblygu Busnes Pysgodfeydd a allai gael eu cyflwyno, ond nid oes unrhyw adborth arall wedi dod i law gan y grŵp.	
Cam Gweithredu 8: HW i lunio dogfen sy'n amlinellu'r hyn y gellir gwneud cais amdano o dan Gronfa'r Môr a Physgodfeydd Ewrop a'r broses gwneud cais.	HW
Statws: Mae HW wedi cysylltu â'i phwynt cyswllt yn ne-orllewin Lloegr, ac mae'n gobeithio y bydd yn gallu helpu (drwy roi templed sy'n cael ei ddefnyddio yn Lloegr), ond bydd angen i is-adran y Môr a Physgodfeydd ac Uned Rheoli Cynlluniau Llywodraeth Cymru gyfrannu at unrhyw ddogfen a gaiff ei llunio sy'n gysylltiedig â Chronfa'r Môr a Physgodfeydd Ewrop, yn ogystal â'i chymeradwyo. Felly, ni fydd yn barod mewn pryd ar gyfer cyfarfod nesaf Grŵp	

Cynghori ar Bysgodfeydd Môr Cymru ar 16 Mai.	
Cam Gweithredu 9: Cynigiodd BJ fynd i gyfarfodydd cymdeithasau neu gynnal cymorthfeydd er mwyn rhoi gwybodaeth i'r aelodau a thrafod problemau unigol. Gofynnwyd i'r aelodau roi gwybod i gymdeithasau am y cynnig hwn ac adrodd yn ôl i BJ.	Aelodau
Statws: Nid oes unrhyw gymdeithas wedi manteisio ar y cynnig hwn.	
Cam Gweithredu 10: BJ i ofyn am eglurhad pellach sy'n esbonio'r arian posibl sydd ar gael i gymdeithasau neu gyrff a gyfansoddwyd a all wneud cais am arian ar gyfer gorddrysau dianc.	BJ
Statws: Mae gorddrysau'n gymwys o dan Fesur I.15: Erthygl 38. Gall y canlynol gyflwyno ceisiadau: <ul style="list-style-type: none"> • Perchnogion cychod neu longau pysgota; • Pysgotwyr sy'n berchen ar yr offer i'w newid; • Sefydliadau pysgotwyr (e.e. Cymdeithas Pysgotwyr Cymru neu Gymdeithas Pysgotwyr Pysgod Cregyn Gorllewin Cymru, neu un o'r cymdeithasau pysgota sy'n aelod cyswllt o Gymdeithas Pysgotwyr Cymru) [nid yw'r cymal hwn yn bodoli ar gyfer Erthygl 32 – offer lechyd a Diogelwch] 	
Cam Gweithredu 11: Sue Barton i gael ei gwahodd i gyfarfod nesaf Grŵp Cynghori ar Bysgodfeydd Môr Cymru er mwyn cyflwyno canfyddiadau ei hadroddiad ar orddrysau dianc.	Cadeirydd
Statws: Mae SB wedi derbyn y gwahoddiad i fod yn bresennol yn ystod y prynhawn yn y cyfarfod nesaf.	
Cam Gweithredu 12: Gofynnwyd i'r aelodau gyflwyno tystiolaeth o fanteision defnyddio gorddrysau dianc. Lluniwyd nifer o adroddiadau yn flaenorol ar y defnydd o orddrysau dianc. Gellir cyflwyno'r wybodaeth hon yn ystod y cyfarfod nesaf.	Aelodau
Statws: Mae dwy gymdeithas wedi cyflwyno tystiolaeth.	
Cam Gweithredu 13: Yr aelodau i roi manylion mentrau marchnata a hyrwyddo i HW.	Aelodau
Statws:	
Cam Gweithredu 14: Cytunodd BJ i ymchwilio i gostau teithio a chynhaliaeth nifer gyfyngedig o fynychwyr nad oeddent yn arddangos yn Seafood Expo.	BJ
Statws: Wedi'i gwblhau Roedd y Clwstwr Bwyd Môr mewn sefyllfa i gynnig y cymorth hwn, a derbyniodd un busnes y cynnig.	
Cam Gweithredu 15: HW i wahodd Caroline Dawson, Rheolwr Prosiect Cronfa'r Môr a Physgodfeydd Ewrop a Chlwstwr Bwyd Môr Cymru ym Menter a Busnes, i ddod i un o gyfarfodydd Grŵp Cynghori ar Bysgodfeydd Môr Cymru yn y dyfodol er mwyn trafod prosiect i farchnata a hyrwyddo bwyd môr Cymru.	HW
Statws: Mae Menter a Busnes yn arwain prosiect ar y cyd â'r Gronfa Ddata ar Offer Pysgota Môr i ddatblygu marchnad bwyd môr Cymru. Mae'r prosiect yn cael ei ariannu gan Gronfa'r Môr a Physgodfeydd Ewrop. Rydym yn disgwyl i'r Uned Rheoli Cynlluniau gadarnhau'r cyllid ar gyfer y prosiect, a dylai'r prosiect ddechrau fis nesaf. Rwy'n meddwl y bydd cyfarfod Grŵp Cynghori ar Bysgodfeydd Môr Cymru ym mis Mai yn rhy gynnar i Caroline roi cyflwyniad ar y	

prosiect. Felly, efallai y bydd y cyfarfod ym mis Gorffennaf yn fwy addas.

Cam Gweithredu 16: Trafod ymgynghoriad ESNR yn ystod y cyfarfod nesaf.

Ysgrifenyddiaeth

Statws: Ychwanegwyd yr eitem at yr agenda.

Cam Gweithredu 17: SE i roi'r wybodaeth ddiweddaraf yn fras i'r aelodau am Brexit yn ystod y cyfarfod nesaf.

SE

Statws:

Cam Gweithredu 18: JB i geisio cadarnhad am nifer yr ymweliadau â'r tudalennau gwe ar y Môr a Physgodfeydd.

JB

Statws: Rhoddwyd gwybodaeth fel rhan o eitem 10 ar yr agenda.